



Uned 5C: Gwerthuso gwybodaeth, gwirio cywirdeb a chwestiynu hygredd

Ynglyn â'r Uned:

Yn yr uned hon mae plant yn dysgu pwysigrwydd gwirio gwybodaeth am gamsyniadau ac anghysondebau, sut i ddod o hyd i gamsyniadau a'u newid. Byddant yn gallu cymhwyso'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu yn yr uned hon pryd bynnag y byddant yn trin gwybodaeth.

Ble mae'r uned yn ffitio:

Mae'r uned hon yn adeiladu ar Uned 4D 'Casglu a chyflwyno gwybodaeth: holiaduron a siartiau', ac Uned 5B 'Dadansoddi data a gofyn cwestiynau: defnyddio chwiliadau manwl.'

Mae'r uned hon yn cymryd yn ganiataol bod y plant yn gallu dehongli siartiau bar a graffiau llinell.

Geirfa:

Cywirdeb | gwall | rhagfarn |

Adnoddau:

Ffeiliau data wedi'u paratoi sy'n cynnwys gwallau |

Disgwyliadau: ar ddiwedd yr uned hon,

Bydd mwyafrif y plant yn gallu: dehongli, gwirio a chwestiynu data, gan sylweddoli bod gwybodaeth o ansawdd gwael yn achosi canlyniadau annibynadwy.

Bydd rhai plant dim ond yn gallu: sylweddoli pwysigrwydd gwirio data a bod gwybodaeth o ansawdd gwael yn achosi canlyniadau annibynadwy.

Hefyd bydd rhai plant yn gallu: dehongli, gwirio a chwestiynu data; defnyddio casgliad rhesymegol i ganfod data annhebygol neu anghywir; sylweddoli bod gwybodaeth o ansawdd gwael yn achosi canlyniadau annibynadwy



Amcanion Dysgu <i>Dylai disgyblion ddysgu...</i>	Gweithgareddau Posib	Canlyniadau Dysgu <i>Gall disgyblion...</i>	Pwyntiau i'w nodi
---	----------------------	--	-------------------

Gosod yr Olygfa <ul style="list-style-type: none">• syniad allweddol: bod gwybodaeth sy'n cael ei chadw ar gronfeydd data yn gallu cynnwys gwallau a'u bod yn gallu effeithio ar ganlyniadau	<ul style="list-style-type: none">• Gofynnwch i'r dosbarth ystyried sut mae cronfeydd data'n cael eu defnyddio ym mywyd bob dydd e.e. <i>cronfa ddata disgyblion ar gyfrifadur yr ysgol, cronfeydd data mewn banciau, ysbytai, archfarchnadoedd, swyddfeydd, a'r rheiny a gedwir gan yr heddlu, awdurdodau lleol ac asiantaethau'r llywodraeth</i>. Trafodwch ddibenion y cronfeydd data hyn a'r defnydd ohonynt. Trafodwch beth fyddai'n digwydd pe bai gwallau ar un o'r cronfeydd data hyn. Trafodwch â'r dosbarth sut mae natur anrheoledig y Rhynggrwyd yn gallu arwain at wybodaeth sy'n anghywir neu'n unochrog. Gofynnwch i'r plant pwy allai rhoi'r wybodaeth hon ar y We Fyd Eang a pham.	<ul style="list-style-type: none">• Nodi rhai goblygiadau data anghywir	<ul style="list-style-type: none">• Gallai hyn arwain at drafodaeth am duedd.
--	---	---	---

Tasgau byr wedi'u Ffocysu <ul style="list-style-type: none">• techneg: gwirio am gywirdeb drwy wirio data.	<ul style="list-style-type: none">• Paratowch gronfa ddata sy'n cynnwys gwallau, fel sillafu anghywir, data annhebygol (er enghraifft, 1 medr am hyd afon), a mathau anghywir o feysydd (er enghraifft 'deg' mewn maes rhifau neu 'merch' mewn maes lle mae angen 'b' am "benywaidd"). Dylai bod gan y gwallau oblygiadau difrifol; er enghraifft, cyfansymiau anghywir mewn cyfrif cadw neu amserau anghywir mewn cronfa ddata amserlenni. Gofynnwch i'r plant ymarfer gwirio cywirdeb a newid cofnodion. Wedyn gofynnwch iddynt drafod sut mae gwallau'n gallu effeithio ar ganlyniadau.• Trafodwch achosion lle gellir cywiro data ar unwaith (fel camsillafu neu feysydd gwybodaeth anghywir), ac achosion lle gellir darganfod gwallau ond ni ellir eu cywiro (fel pan fo'r data'n annhebygol). Esboniwch wrth y dosbarth os yw'r gwallau'n fwy cymhleth efallai y byddai'n fwy diogel dileu'r cofnod cyfan.	<ul style="list-style-type: none">• Nodi data anghywir neu annhebygol.	<ul style="list-style-type: none">• Bydd rhai plant yn nodi camsyniadau dim ond os ydynt yn gwybod yr ateb cywir. Dylid annog plant mwy galluog i ddefnyddio casgliadau rhesymegol i nodi anghysondebau• Dylid annog pob plentyn i feddwl yn ofalus cyn gwneud unrhyw newidiadau i ddata oherwydd na fyddai rhai o'r newidiadau amlwg yn gywir; er enghraifft, sillafu enwau anghyfarwydd neu data sydd y tu allan i brofiadau plant.
--	--	--	--



Amcanion Dysgu <i>Dylai disgyblion ddysgu...</i>	Gweithgareddau Posib	Canlyniadau Dysgu <i>Gall disgyblion...</i>	Pwyntiau i'w nodi
Tasgiau byr wedi'u Ffocysu (Parhad.)			
<ul style="list-style-type: none">• techneg: gwirio am anghysondebau gan ddefnyddio cynrychioliadau graffeg	<ul style="list-style-type: none">• Paratowch ffeil data sy'n mesur taldra plentyn o'i enedigaeth tan 12 mlwydd oed gan gynnwys un gwall. Dangoswch y data i'r dosbarth a thrafod pa mor anodd ydyw i weld gwallau. Dangoswch sut mae graff llinell yn gallu amlygu gwallau• Gofynnwch i'r plant ddefnyddio graffiau llinell i wirio am gamsyniadau pryd bynnag maen nhw'n bwydo data parhaus i mewn i gronfa ddata, taenlen neu raglen graffiau.	<ul style="list-style-type: none">• Nodi pwynt anghywir ar graff llinell.	<ul style="list-style-type: none">• Gellir astudio technegau archwilio gweledol eraill gan ddefnyddio mathau eraill o graffiau a siartiau.
Tasg Aseu			
<ul style="list-style-type: none">• Nodi a chywiro data annhebygol ac anghywir	<ul style="list-style-type: none">• Gellid ymarfer y technegau hyn pryd bynnag bydd y plant yn defnyddio TGCh i drin gwybodaeth.	<ul style="list-style-type: none">• Nodi a chywiro data anghywir ac annhebygol wrth ddefnyddio TGCh i drin gwybodaeth.	